ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Uned: Antur/Efelychu

TGCh - Y Blynyddoedd Cynnar

Trosolwg o'r uned hon:

Dylai'r staff fodelu defnyddio amrywiaeth o gynrychioliadau cyfrifiadurol syml o sefyllfaoedd dychmygol (antur) neu go iawn (efelychu) gyda'r plant. Gellir cysylltu gweithgareddau ar y cyfrifiaduron â themâu dosbarth neu bynciau i hybu datblygiad iaith ac i ddatblygu sgiliau gweithio ar y cyd a meddwl. Bydd cyfnodau pan fydd y plant yn cael eu cyfeirio at dasgau am gyfleoedd dysgu penodol, ond dylai fod cyfleoedd i ddisgyblion ddewis y gweithgareddau ar y cyfrifiaduron fel rhan o ddarpariaeth barhaus ac wedi'i chyfoethogi. Gellir paratoi gweithgareddau ar y BGRh i'r disgyblion eu defnyddio hefyd. Mae nifer o weithgareddau ar gael am ddim ar y we yn ogystal â meddalwedd wedi'i phrynu. Dylid hybu defnydd priodol o'r Gymraeg wrth drafod y gweithgareddau: lliw, siâp, maint etc.

Bydd gweithgareddau sefyllfaoedd dychmygol yn caniatáu i'r plant fod yn rhan o sefyllfaoedd chwarae rôl, gan gyflawni cwestau, casglu gwrthrychau a datrys problemau. Bydd efelychiadau yn caniatáu i blant ymchwilio i weithgareddau y byddent fel arfer yn eu cyflawni go iawn, e.e. gwisgo tedi, cwblhau jig-so, dosbarthu gwrthrychau fesul maint, paru neu gasglu gwrthrychau etc. Bydd plant yn cyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau, a dylid eu hannog i ddatblygu dyfalbarhad i gwblhau tasgau. Gall staff ddefnyddio meddalwedd i greu gweithgareddau syml drwy ddefnyddio BGRh neu amrywiaeth o feddalwedd generig i gefnogi ac atgyfnerthu dysgu.

Gellir cysylltu rhai meddalwedd a gweithgareddau â sefyllfaoedd chwarae rôl, fel meddalwedd efelychu swyddfa i ddatblygu ysbyty neu ystafell aros meddyg, swyddfa gwerthu tai neu swyddfa ysgol ffug, plannu a thyfu blodau mewn canolfan arddio neu ar gyfer siop flodau etc.

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon:

Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau: defnyddio llygoden i symud eitemau ar y sgrîn i drefnu fesul lliw, maint a rhoi gwrthrychau yn eu trefn etc. Gallant gwblhau tasgau syml a thrafod eu gweithredoedd.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: defnyddio llygoden gyda chymorth i symud eitemau ar y sgrîn i gwblhau tasgau syml a dim ond yn trafod eu gweithredoedd gyda chefnogaeth ac anogaeth oedolion.

Bydd rhai plant hefyd yn gallu: defnyddio llygoden i symud eitemau ar y sgrîn i drefnu fesul lliw, maint a rhoi gwrthrychau yn eu trefn etc. Maent yn cwblhau tasgau syml ac yn arddangos sgiliau meddwl i ystyried eu hopsiynau drwy siarad yn hyderus am eu gweithredoedd. Maent yn dangos dyfalbarhad i gwblhau tasgau.

ALLWEDD:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol (DPChLlAD)	Datblygiad yr Iaith Gymraeg (DIG)	Datblygiad Creadigol (DCr)
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlC)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (GDB)	Chwarae yn yr Awyr Agored (**ChAA**)
Datblygiad Mathemategol (**DM**)	Datblygiad Corfforol (DC)	Chwarae Rôl (**ChR**)

DPChLIAD IIIC DM DIG GDB DC DCr CHAA CHR

Blynyddoedd Cynnar	Dod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu

Asesiad Athrawon: *Dylai'r sgiliau y mae'r plant yn eu harddangos fod yn rhan o asesu parhaus.*
Dylid olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion yn unol â pholisi asesu'r ysgol, a dylid defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio unrhyw gynllunio yn y dyfodol. Darperir taflenni cofnodi ar gyfer ysgolion fel rhan ddewisol o'r Cynllun Gwaith hwn.

Antur/Efelychu

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgareddau a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Defnyddio rhaglen efelychu i gwblhau tasgau syml. Gallu defnyddio'r llygoden neu'r BGRh i symud gwrthrychau ar y sgrîn at ddiben.	PSD WBCD LLC MD WLD KUW PD CD	Dylai'r staff arddangos a modelu'r defnydd o gynrychioliadau cyfrifiadurol syml o sefyllfaoedd dychmygol (antur) neu go iawn (efelychu) gyda'r plant. Hybu'r plant i ddeall bod symud y llygoden wrth bwyso'r botwm chwith yn caniatáu i wrthrychau gael eu llusgo a'u symud ar y sgrîn. Gellir cysylltu gweithgareddau â themâu dosbarth neu bynciau i ysgogi datblygiad iaith a datblygu sgiliau gweithio ar y cyd a meddwl. Gallant gynnwys symud gwrthrychau ar sgrîn e.e. gellid gwisgo cymeriad ar gyfer amodau tywydd gwahanol neu osod celfi mewn ystafell tŷ dol, adeiladu tŷ neu dref, creu anifail dychmygol, gwneud brechdan, gwisgo tedi, cwblhau jig-so etc. Mae nifer o'r gweithgareddau hyn ar-lein, ar CD-ROMs, neu gall staff eu gwneud i gefnogi amcanion dysgu trawsgwricwlaidd penodol. Dylid hybu'r Gymraeg lle bynnag y bo modd. Gellir defnyddio efelychiadau syml sy'n adlewyrchu profiadau go iawn neu	Cyfrifiadur Bylchwr Llygoden Clicio Llusgo Dosbarthu Cyfrif Symud Cydweddu Lliwiau Iaith lleoli; i fyny, i lawr, ar draws, ger, y tu ôl etc.	Cyfrifiadur Gweithgareddau gwefan Meddalwedd, gan gynnwys gweithgareddau paru, didoli a dilyniannu. BGRh	

		weithgareddau chwarae sy'n gysylltiedig â'r thema neu bwnc neu ardaloedd chwarae rôl fel rhan o ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi, fel meddalwedd "chwarae swyddfa". Hybu plant i drafod eu profiadau gydag eraill a chymryd tro a rhannu adnoddau. Rhaid eu hannog i weithio ar y cyd ac i ddatblygu dyfalbarhad i gwblhau tasgau. Gall rhai gweithgareddau/meddalwedd ofyn i'r plant wasgu allweddi penodol ar fysellfwrdd y cyfrifiadur, fel y bylchwr, mewn ymateb i gyfarwyddyd. Mae hyn yn hybu'r plant i ddeall bod ymatebion gwahanol ar gyfrifiadur i rannau o'r fysellfwrdd.			
Yn gallu defnyddio TGCh i drefnu a dilyniannu gwrthrychau ar y sgrîn.		Atgyfnerthu gweithgareddau diriaethol lle mae plant yn trin, dethol, trefnu a dilyniannu gwrthrychau yn ôl meini prawf fel maint, lliw, siâp, math ac ati ar y sgrîn a BGRh. Mae'r rhain ar gael ar y rhyngrwyd/CD-ROM neu drwy ddefnyddio templedi/gweithgareddau a baratowyd gan staff. Mae hwn yn gyfle da i ddatblygu iaith fathemategol briodol ac yn darparu cyfleoedd am ddatblygu'r Gymraeg.	Cyfrifiadur Llygoden Clicio Llusgo Dosbarthu Cyfrif Symud Cydweddu Lliwiau Iaith lleoli; i fyny, i lawr, ar draws, ger, y tu ôl etc.	Cyfrifiadur Gweithgareddau gwefan Meddalwedd, gan gynnwys gweithgareddau paru, didoli a dilyniannu. BGRh	